

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL 28 Tachwedd 2018

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd M Evans, y
Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y
Cynghorydd M James, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd PJ
Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE
Sangster, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 12.45pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd K Doolin a'r Cynghorydd M Williams.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd y Cynghorydd P Baker fuddiant yn eitem 44/18 Cyflwyno'r CDLI ar Adnau a hefyd 47/18 Diweddariad ar yr amrywiad arfaethedig i'r Gorchymyn Parcio presennol. Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant yn eitem 44/18 Cyflwyno'r CDLI ar Adnau. Fodd bynnag, arhosodd y ddau Aelod yn y cyfarfod gan chwarae rhan lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018.

4. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Barbara Bevan a oedd yn arsylwi yn y cyfarfod y bore hwnnw. Yn ddiweddar, roedd Barbara wedi dechrau ar gontract dros dro gyda'r Awdurdod. Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r Cyngor Parciau Cenedlaethol yn ystod mis Tachwedd lle bu trafodaethau ynghylch yr adolygiad gan Julian Glover o Barciau Cenedlaethol Lloegr, yn debyg i'r hyn a gynhaliwyd ym Mharciau Cenedlaethol Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd hi hefyd wedi mynychu cinio blynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr lle'r anogwyd yr Awdurdod i gymryd ymagwedd flaengar at faterion amaethyddol.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y gallai fod gan Aelodau ddi-ddordeb i wybod bod safle'r Awdurdod yn Sageston wedi'i werthu i *ateb* a bod y



broses o roi prydles i Gyngor Trefdraeth ar gyfer yr hen Ganolfan Groeso yng Nhrefdraeth wedi'i chwblhau.

NODWYD.

- 5. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 5 ac 17 Medi 2018;
- (ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2018.

NODWYD.

- 6. Maniffesto leuenctid Europarc - galw am newid mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd gwarchoddedig**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau iddi sôn mewn cyfarfod blaenorol o'r Awdurdod iddi hi, ynghyd â Mr AE Sangster, Tom Moses, y Parcmon Darganfod a thri o Barcmyn leuenctid - Cat, Ethan a Matt, fod yn bresennol yng Nghynhadledd Europarc ar y thema 'Inspired by the next generation'. Croesawodd Tom a'r Parcmyn leuenctid i'r cyfarfod.

Yna fe wnaeth y Parcmyn leuenctid gyflwyniad i'r Awdurdod ynglŷn â'r Maniffesto leuenctid (yn atodedig i'r adroddiad) a luniwyd gan gynrychiolwyr pobl ifanc o bob rhan o Ewrop ac a gyflwynwyd i'r Gynhadledd. Amlygai hyn bryderon pobl ifanc ac roedd yn awgrymu yr hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Cymeradwyodd Mrs Hayward a Mr Sangster waith a brwdfrydedd y bobl ifanc yn y gynhadledd a'r effaith a gafodd eu syniadau ar y bobl a oedd yno. Diolchodd yr Aelodau hefyd i'r Parcmyn leuenctid am eu cyflwyniad ysbrydoledig. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod o'r Parcmyn leuenctid, ynghyd â nifer fechan o Aelodau a oedd â diddordeb, er mwyn symud ymlaen â hyn.

PENDERFYNWYD trefnu cyfarfod o'r Parcmyn leuenctid a grŵp bach o Aelodau i drafod y camau nesaf a'r camau perthnasol.

- 7. Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol Adeuo (Newydd) a'r Newidiadau Ffocws a Dogfennau Ategol**

Eglurodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc mai pwrpas ei hadroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod i gyflwyno'r dogfennau uchod i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harchwilio. Gellid dod o hyd i'r cysylltiadau gwe i'r rhain yn yr adroddiad.



Nodwyd, cyn y gellid eu cyflwyno, y byddai'n rhaid cytuno hefyd ar yr Adroddiad Ymgynghori, a oedd yn cynnwys crynodeb o'r holl faterion a godwyd yn y Strategaeth a Ffefrir a Chamau Adneuo'r Cynllun yn ogystal ag ymateb arfaethedig y Swyddogion i'r rhain.

O ganlyniad i sylwadau ar y Cynllun ar Adnau, cynigiwyd nifer o Newidiadau â Ffocws a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r rhain ar gyfer ymgynghori. Gofynnwyd am bwerau dirprwyedig i ganiatáu i swyddogion gynnig ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a ddaeth i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Byddai sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod iddynt yn ffurfio atodiad i'r Adroddiad Ymgynghori y cyfeirir ato uchod.

Roedd yr Adroddiad yn cloi drwy amlinellu'r camau nesaf a oedd yn cynnwys yr Archwiliad i'r Cynllun. Gofynnwyd hefyd am awdurdod i Bennaeth Cyfeiriad y Parc drafod ar ran yr Awdurdod yn ystod yr Archwiliad, a byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod maes o law.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynglŷn â materion a godwyd yn y Gweithdy Aelodau diwethaf ar y Cynllun Datblygu Lleol a'r Newidiadau â Ffocws, ac atebodd y swyddogion hwy. Nodwyd bod yr Awdurdod Priffyrdd yn gallu cyflwyno sylwadau ar y Newidiadau â Ffocws mewn perthynas â phroblem Briffyrdd bosibl yn ymwneud ag un o'r Mannau Agored a gynigiwyd.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo Adroddiad Ymgynghori'r Awdurdod ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2.
- b) Awdurdodi Pennaeth Cyfeiriad y Parc i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 2, y ddogfen Newid â Ffocws a dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.
- c) Awdurdodi Pennaeth Cyfeiriad y Parc i hysbysebu'r Newidiadau â Ffocws a chael bwerau dirprwyedig i ymateb i'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad i'r Newidiadau â Ffocws a pharatoi atodiad i'r Adroddiad Ymgynghoriadau ar gyfer yr Arolygiaeth.
- d) Awdurdodi Pennaeth Cyfeiriad y Parc i hysbysebu'n ffurfiol a threfnu ar gyfer yr Archwiliad, gan gynnwys y Cyfarfod Cyn y Gwrandawriad a'r Gwrandawriad ei hun.
- e) Awdurdodi Pennaeth Cyfeiriad y Parc i drafod ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod yr Archwiliad, a byddai canlyniadau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w cadarnhau'n ffurfiol maes o law.



8. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro

Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft ymgynghorol y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) ar gyfer Sir Benfro wedi cael ei ystyried yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018. Paratowyd y cynllun hwn ar y cyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Sir Penfro i ddisodli'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cychwynnol a oedd yn cynnwys y cyfnod 2008 - 2018.

Soniwyd bod 18 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol wedi dod i law ac roedd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig a gynigiwyd, yn atodedig i'r adroddiad.

Roedd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 - 2028 hefyd yn atodedig ar gyfer yr Aelodau a gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r ddogfen hon.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod y rhwydwaith llwybrau mewn cyflwr da ac awgrymwyd y gellid defnyddio cronfa Gwella Sir Benfro i wella hyn fwy fyth yn y dyfodol, yn enwedig pe bai gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â grwpiau defnyddwyr gwirfoddol. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd arwyddion da fel ffactor wrth wella'r defnydd. Dywedodd Aelod arall, wrth gytuno â hyn, er bod arwyddion yn bwysig mewn ardaloedd mwy trefol, ei fod yn gobeithio na fyddai cynnydd mewn arwyddion yn ardaloedd mwy anghysbell yn y sir a fyddai'n cael effaith negyddol ar yr ymdeimlad o heddwch. Gobeithiwyd hefyd y gellid gwneud mwy o waith gyda phobl iau a hefyd trwy ragnodi cymdeithasol, gan weithio gyda'r Bwrdd Iechyd. Atebodd y swyddog fod y camau a nodwyd o dan Amcanion E ac F y Cynllun yn annog cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o gerdded ym mhob grŵp.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 - 2028.

9. Adolygiad Blynyddol o Weithredu a Rheoli Meysydd Parcio yr Awdurdod sy'n Codi Tâl

Roedd yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn rhoi adolygiad o weithredu a rheoli meysydd parcio'r Awdurdod yn ystod 2018, gan gynnwys niferoedd y tocynnau a roddwyd, incwm net a'r costau gweithredu. Amlygwyd hefyd y broblem gynyddol o wersylla mewn faniau symudol dros nos a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Cytunodd yr Aelodau fod y cynnydd yn y gweryslla dros nos yn bryder a gobeithiwyd y byddai targedu'r broblem yn ei lliniaru. Hefyd, roedd angen mwy o addysgu a chyfathrebu i esbonio pam na chaniateir parcio o'r fath. Dywedodd un Aelod, er bod incwm ar gynnydd, bod y costau gweithredu ar gynnydd hefyd, a holwyd pam felly. Atebodd y swyddog fod y costau gweithredu wedi cynyddu oherwydd absenoldeb salwch aelod o staff a



buddsoddi mewn peiriant talu ac arddangos newydd. O ran incwm, ethos yr Awdurdod oedd peidio â gwneud gormod o elw, ac felly mae'r cynnydd mewn cyfnodau di-dâl a thocynnau tymor yn cynnig dull costeffeithiol i bobl barcio ym meysydd parcio'r Awdurdod. Awgrymwyd y gallai trafodaeth bellach ar y pwynt hwn fod yn destun adroddiad i'r Aelodau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo camau'r swyddogion yn barod ar gyfer tymor 2019.

10. Adroddiad Diweddarau ar y bwriad i amrywio'r Gorchymyn Meysydd Parcio sydd eisoes yn bodoli, yn barod ar gyfer dechrau'r tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2019

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi penderfynu, yn eu cyfarfod ar 16 Mai 2018, i gyfarwyddo Cyngor Sir Penfro, sef yr Awdurdod Prifffyrdd perthnasol, i gychwyn y broses statudol a fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod weithredu'r amryw ddarpariaethau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 21 diwrnod ar Orchymyn Amrywio Rhif 1 (2019) Cyngor Sir Penfro, i amrywio Gorchymyn (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015. Roedd yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn nodi'r broses ymgynghori ac yn crynhoi'r prif themâu a gododd yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod. Dosbarthwyd rhestr lawn o ymatebion i'r Gorchymyn i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Gan nodi ei bod wedi cael nifer o sylwadau eraill cyn y cyfarfod, tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at wybodaeth ychwanegol a gafwyd y bore hwnnw ynglŷn â'r maes parcio ym Mae Gorllewin Angle a rhoddwyd ychydig funudau i'r Aelodau ddarllen y wybodaeth honno.

Gan gyfeirio at yr ohebiaeth a gawsant ynghylch codi tâl ym meysydd parcio Amroth ac Angle, roedd nifer o'r Aelodau'n bryderus ynghylch y cynigion, yn enwedig oherwydd bod y gymuned yn credu ers tro bod y maes parcio yn Angle wedi'i roi ar gyfer parcio di-dâl am byth. Atebodd y Swyddog Ystadau fod y ddogfen gyfreithiol y trosglwyddwyd y maes parcio yn Gorllewin Angle i'r Awdurdod ddim ond yn sôn bod rhaid ei ddefnyddio fel maes parcio. Nid oedd cyfeiriad at godi tâl nac at beidio â chodi tâl. Fodd bynnag, nodwyd bod yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn gofyn iddynt ystyried canlyniad yr ymgynghoriad statudol. Gallai Cyngor Sir Penfro, sef yr Awdurdod Prifffyrdd perthnasol, gwblhau'r broses sy'n ofynnol i amrywio telerau'r Gorchymyn Maes Parcio sydd mewn grym ar hyn o bryd. Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd â'r disgrisiwn i weithredu'r Gorchymyn a gellid cynnal trafodaethau pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol pe byddai angen. Ychwanegodd y Swyddog Ystadau ei fod yn deall y gallai'r Gorchymyn gymryd o ddechrau mis Ebrill



i'w wneud, ac oherwydd y byddai tymor codi tâl 2019 eisoes wedi dechrau, roedd o'r farn y dylid gohirio rhag cyflwyno'i ddarpariaethau tan y tymor canlynol.

Roedd Aelodau eraill yn hapus i gefnogi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a nodwyd yn yr adroddiad ac i swyddogion fwrw ymlaen â'r broses.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi canlyniad yr ymgynghoriad statudol.
- b) Bod yr Aelodau yn cadarnhau eu cyfarwyddiadau i'r Awdurdod Priffyrdd i fwrw ymlaen â Gorchymyn Amrywio Rhif 1 (2019) Cyngor Sir Penfro, i amrywio Gorchymyn (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015

11. Y bwriad i ail-gerio Maes Parcio Traeth Marloes

Dywedwyd bod yr eiddo a grybwyllir uchod yn cynnwys maes parcio mawr ac iddo wyneb anffurfiol, a weithredwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel maes parcio â thâl ers dechrau'r 1980au. Yn 2011 daeth y cyfle i ad-drefnu'r brydles honno gyda'r partïon a chytunwyd ar brydles atgyweirio ac yswiriant llawn am 10 mlynedd gyda'r rhent yn seiliedig ar drosiant sy'n adlewyrchu 60% o incwm gros y maes parcio.

Yn amodol ar gael caniatâd y landlord a'r caniatâd statudol perthnasol, roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol erbyn hyn yn awyddus i wella'r cyfleusterau yn y maes parcio trwy osod wyneb tarmac newydd ac adeiladu adeilad newydd ar gyfer gofalwr ac at ddibenion recriwtio. Fodd bynnag, er mwyn cyfiawnhau'r lefel honno o wariant, roeddent wedi cysylltu â'r Awdurdod yn gofyn am brydles 20 mlynedd newydd ar y telerau presennol. Roedd y swyddogion o'r farn bod telerau'r brydles bresennol yn deg ac y byddai'r estyniad 20 mlynedd y gofynnwyd amdano yn sicrhau bod y telerau hynny'n parhau yn y tymor canolig/tymor hir.

Mynegodd un Aelod bryder ynghylch y cynnig, gan gredu bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi addo llawer ar y safle hwn, ond nad oedd wedi gwireddu'i haddewidion. Gofynnodd a oedd modd gofyn iddi ail-wynebu'r maes parcio fel amod o estyn y brydles. Atebodd y swyddog, gan fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn denant presennol, nad oedd yn credu bod hyn yn bosibl a theimlai y byddai rhoi'r estyniad yn ei hannog i ymgymryd â'r gwaith.

PENDERFYNWYD awdurdodi prydles 20 mlynedd newydd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y telerau sy'n bodoli eisoes.



12. Yr eiddo o'r enw 'Furze Mill' wrth ymyl Maes Parcio yr Awdurdod yn Nolton Haven

Soniwyd bod pont fach i gerddwyr rhwng maes parcio'r Awdurdod yn Nolton Haven a'r eiddo preswyl 'Furze Mill' sydd wedi bod yno ers blynyddoedd lawer ac sydd yn ymyl tir yr Awdurdod. Pwrpas y bont oedd darparu mynediad eilaidd i gerddwyr yn unig. Yn ategol i'r defnydd o'r bont, roedd perchnogion Furze Mill hefyd wedi defnyddio rhan o ymyl maes parcio meddal yr Awdurdod fel ffordd fynediad i gerddwyr. Roedd Furze Mill bellach ar werth, ac ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gytundeb ysgrifenedig yn dogfennu naill ai'r bont na'r defnydd o'r ffordd fynediad i gerddwyr.

PENDERFYNWYD, yn unol â'r Polisi Llechfeddiant a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, gyflwyno gweithredoedd i berchnogion Furze Mill i reoleiddio bodolaeth y bont a chymeradwyo'r ffordd fynediad i gerddwyr sy'n ategol i'r defnydd o'r bont ar hyd ymyl y maes parcio .

13. Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) - Newidiadau i Weinyddu'r Gronfa

Soniwyd bod yr SDF wedi cael ei gweinyddu'n fewnol yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau staff, ystyriwyd mai da o beth fyddai ailystyried gweinyddiaeth y Gronfa, ac i ddod i gytundeb, trwy'r bartneriaeth â PLANED, i wneud hyn am gyfnod prawf o 15 mis.

Sicrhawyd yr Aelodau mai'r Pwyllgor SDF fyddai'n dal i fod yn gyfrifol am benderfynu pa brosiectau fyddai'n elwa o'r gronfa, ac y byddai'n parhau i gael ei gynnal fel yr oedd ar hyn o bryd.

Holodd yr Aelodau a oedd y trefniadau'n darparu gwerth am arian a gofynnwyd hefyd beth fyddai'n digwydd pe bai PLANED yn dod i ben. Atebodd y swyddogion fod natur SDF yn golygu bod llawer o gefnogaeth gan swyddogion ar gyfer prosiectau, ac oherwydd bod nifer o brosiectau hefyd yn ceisio arian cyfatebol gan gronfeydd eraill a weinyddir gan PLANED, y gobeithiwyd y byddai arbedion effeithlonrwydd yn ogystal â phroses symlach ar gyfer ymgeiswyr.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i weithio mewn partneriaeth â PLANED am gyfnod o 15 mis i weinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar ran yr Awdurdod.

14. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019/20

Dywedwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol drafft yn ddiweddar ar gyfer 2019/20 a chrynhowyd y pwyntiau perthnasol o ran perthnasedd, gyda'r newidiadau yn dod i rym o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Gofynnwyd am farn yr



Aelodau ynghylch a ddylai ymateb i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Panel, ac os felly, beth fyddai cynnwys ymateb o'r fath.

Nododd un Aelod bod brawddeg olaf paragraff 12.2, a oedd yn cyfeirio at fod treuliau a ad-dalwyd i aelodau gan eu hawdurdod lleol yn esempt o'r Dreth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn anghywir, a barnwyd y dylid ymateb yn glŷn â'r gwall ffeithiol hwn.

PENDERFYNWYD y dylid ymateb i Banel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol ynghylch y gwall ffeithiol ym mrawddeg olaf paragraff 12.2 o'r Adroddiad Blyneddol drafft 2019/20.

15. Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch

Dywedwyd bod y fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Iechyd a Diogelwch wedi cael ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2015 a bod gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar i ddiwygio'r polisi, yn enwedig integreiddio'r polisi yn well o ran diogelwch ymwelwyr. Datblygwyd y polisi diwygiedig mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Iechyd a Diogelwch, a hefyd trwy ymgynghori â'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff. Roedd y polisi drafft wedi'i ystyried gan y Fforwm Gweithwyr ym mis Hydref ac roedd y sylwadau a ddeilliodd o'r cyfarfod hwnnw wedi'u hymgorffori.

Dywedodd un Aelod ei bod wedi cael y cyfle, trwy gymryd rhan mewn cyrff eraill, i adolygu llawer o Bolisiâu Iechyd a Diogelwch. Teimlai y gallai polisi'r Awdurdod, a oedd yn drosfwaol, elwa o gyfeirio at bolisiâu eraill, megis y rhai sy'n ymwneud â Chyfarpar Sgrin Arddangos a Chyfarpar Diogelwch Personol. Hefyd dylid nodi'n glir beth yw gweithdrefnau'r Awdurdodau ar gyfer ymwybyddiaeth a hyfforddiant, yn enwedig y sesiynau ymgynefino ar gyfer staff newydd. Awgrymodd hefyd y gellid cynnwys teitl y person a oedd yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch o ddydd i ddydd a nodi hefyd y byddai unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol. Yn olaf, roedd Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol yn cynnwys mwy a mwy o gyfeiriadau at 'lesiant' a gellid gwneud mwy o sylw o hyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn amodol ar dalu sylw i'r awgrymiadau uchod.

16. Adroddiadar y gwaith ar y Sarn, Melin Caeriw a Chastell Caeriw

Atgoffwyd yr Aelodau fod gan yr Awdurdod ymrwymiad parhaus i uwchraddio'r atyniadau ymwelwyr yng Nghastell a Melin Heli Caeriw. Roedd £160,000 yn y gyllideb, yn ogystal â £123,212 ar gyfer cynllun gwelliant radical a oedd yn cynnwys datblygu'r Ardd Furiog a'r parlwr te newydd a oedd eisoes ar waith. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer tair eitem arall o wariant mewn perthynas â



chynllun cynnal a chadw pum mlynedd ar gyfer Strwythur Sarn Caeriw, cysylltu ffosydd draenio'r ardd furiog â'r brif system garthffosiaeth a gwella'r safle tocynnau / nwyddau yn y ganolfan ymwelwyr. Yn y cyfarfod, gofynnodd y Swyddog Prosiectau Adeiladu hefyd a ellid atal y rheolau caffael arferol dros dro, fel o'r blaen, drwy ddefnyddio Rheol Sefydlog Contractau Mawr 13, er mwyn gofyn am dendrau gan dri neu bedwar contractwr y bu'r Awdurdod yn gweithio â hwy yn y gorffennol. Y rheswm am hyn oedd bod yr amser yn brin ar gyfer gwneud y gwaith.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r cynigion ond holwyd a oedd unrhyw oblygiadau cynllunio ar gyfer uwchraddio'r safle tocynnau / nwyddau. Atebodd y swyddog y gofynnwyd am Ddiwygiad Ansylweddol ar gyfer newid y cynllun tirweddu ac y byddai'r cynnig yn cael ei gynnwys yn hwnnw. Esboniodd y byddai cwsmeriaid yn dal i fynd i mewn ac allan drwy'r siop ond y gobaith oedd y byddai'r cynnig yn darparu ar gyfer llif gwell o ymwelwyr. Gofynnwyd hefyd a ellid ymgynghori â Chymdeithas Melinau Cymru a'r Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol ar faterion yn ymwneud â Melin Caeriw yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- a) bod y cyllidebau ar gyfer Caeriw yn cael eu cymeradwyo neu eu cynyddu fel a ganlyn - Cynnal a chadw'r Sarn - £180,000; Cysylltu â'r prif gyflenwad carthffosiaeth - £75,000; a'r safle gwerthu tocynnau £25,000.
- b) y dylid cymhwyso'r Rheol Sefydlog Contractau Mawr o ran tendrau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar y Sarn.

